



Gwerthusiad Doethineb Gwledig Canfyddiadau allweddol, Ionawr 2020



Beth yw Doethineb Gwledig?

Mae Doethineb Gwledig yn brosiect pum mlynedd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol sy'n archwilio effaith gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu harwain gan bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a'r Alban.

Fel rhan o uchelgeisiau'r prosiect, mae partneriaid Doethineb Gwledig sef, Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi) yn rhannu'r dysgu i alluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig i ddefnyddio ac elwa o'r hyn sy'n gweithio.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhannu'r canfyddiadau allweddol o'r pum cymuned wreiddiol, ar ddiwedd Cam 1 Doethineb Gwledig. Yn y cam cyntaf hwn, mae'r Gweithwyr Datblygu wedi bod yn gweithio'n agos â phobl hŷn a'r gymuned i adnabod y prif broblemau a mynd i'r afael â nhw, cyflawni canlyniadau'r prosiect a chreu newid cynaliadwy. Yng Ngham 2, mae'r Gweithwyr Datblygu yn cyflwyno Doethineb Gwledig i gymunedau gwledig, newydd yng Nghymru a'r Alban, gan roi'r hyn a ddysgwyd o Gam 1 ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chyflawni'r un canlyniadau prosiect cyffredinol.

Cymunedau Doethineb Gwledig

Yr Alban:

Cam 1

Eaglesham Ucheldir Swydd
Perth, Gogledd Angus

Cam 2

Moray
Gororau'r Alban

Cymru:

Cam 1

Coed-llai a Phontblyddyn
Aberdaugleddau

Cam 2

Treffynnon
Penrhyn Dale

Darllen Pellach:

www.ruralwisdom.org

Canlyniadau'r Prosiect

1. Mwy o bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn cael llais ac yn arwain newid yn eu cymunedau lleol.
2. Mwy o bobl hŷn yn cael y gefnogaeth maen nhw ei heisiau, sy'n gweithio'n dda iddyn nhw, drwy ystod ehangach o wasanaethau cymunedol.
3. Polisiâu yng Nghymru a'r Alban yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn y cymunedau gwledig y maent yn eu hadnabod ac annog cyfraniad pobl hŷn i'w cymunedau.
4. Profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, a'u cymunedau, yn cyfrannu at dwf cymunedau ledled y DU sy'n gwerthfawrogi, yn cynnwys ac yn cefnogi pobl hŷn.



Y Gwerthusiad

Rhwng mis Mai a mis Medi 2019, ymwelodd Tîm Gwerthuso NDTi â chymunedau Cam 1 Doethineb Gwledig. Roedd y Gweithwyr Datblygu yn dod at derfyn eu hamser gyda'r pum cymuned yn dilyn treulio mwy na dwy flynedd yn gweithio â nhw, yn eu helpu i sicrhau bod yr hyn a sefydlwyd yn gynaliadwy. Aeth NDTi yno i weld beth oedd wedi bod yn digwydd, beth oedd wedi newid a beth oedd yn cael ei gynnal drwy waith Doethineb Gwledig. Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliadau a grwpiau ffocws gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys:

Pobl hŷn sy'n breswylwyr yn y cymunedau hyn

Rhanddeiliaid cenedlaethol

Aelodau staff Doethineb Gwledig

Gwirfoddolwyr grwpiau cymunedol

Pobl sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus neu wirfoddol

Gwersi allweddol o bob rhan o Doethineb Gwledig



Beth ydym yn ei ddysgu am bobl hŷn yn arwain newid ac yn cael llais?

- Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod wedi'u cymell i ddefnyddio eu sgiliau a phrofiad i arwain newid os ydynt yn teimlo bod y gweithgaredd yn un y mae galw amdano gan y gymuned a gallant weld canlyniadau eu hamser ac ymdrech.
- Mae'r Gweithwyr Datblygu yn gyfrwng o blaid newid - maent yn ymgysylltu â'r gymuned ac felly yn ymwybodol o broblemau ac anghenion ac yn gallu hwyluso cyswllt â gwasanaethau neu sefydliadau cyhoeddus fel y gall pobl hŷn ymgysylltu'n uniongyrchol i ddylanwadu ar ddarpariaeth.

Beth ydym yn ei ddysgu am bobl hŷn yn cael y gefnogaeth iawn yn eu cymuned?

- Mae angen cysylltiadau ar bobl hŷn â phobl sy'n rhedeg pob math o wasanaethau i allu lleisio eu barn a syniadau yn uniongyrchol ar ba fath o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer byw bywyd o ddydd i ddydd, a sut y gellir cyflwyno hyn yn eu cymuned.
- Mae trafniadaeth yn allweddol ar gyfer llawer o bobl hŷn i allu cyrraedd gwasanaethau a gweithgareddau iechyd yn eu cymuned.
- Mae'n bwysig bod pobl hŷn yn gwybod ymhle gallant gael gwybodaeth ar weithgareddau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae teimlo bod croeso iddynt yn bwysig i bobl sy'n dymuno ymuno â grŵp neu weithgaredd.
- Efallai y bydd angen anogaeth ar bobl i 'gymryd rhan', gan fod hyder, hunanhyder a chymhelliant yn gallu chwarae rhan allweddol wrth geisio cymorth neu ymuno â gweithgareddau.

Gwersi allweddol o bob rhan o Doethineb Gwledig (parhad)



Beth ydym yn ei ddysgu am grwpiau yn seiliedig ar gymdeithasu, hobiau a diddordebau?

- Mae'n rhaid i bobl hŷn gael diddordeb gwirioneddol mewn grŵp neu weithgaredd, neu fod ag angen gwirioneddol am rywbeth o'r fath, iddo gael ei gefnogi'n dda ac yn fwy tebygol o gael ei gynnal.
- Mae'n bwysig na wneir rhagdybiaethau am y math o weithgareddau y bydd pobl hŷn yn eu mwynhau neu'n debygol o gael diddordeb ynddynt.
- Mae pobl hŷn eisiau gweithgareddau a grwpiau sy'n cynnwys y gymuned gyfan.
- Mae'r Gweithwyr Datblygu wedi dangos bod hyblygrwydd er mwyn galluogi i bethau ddigwydd yn allweddol, yn ogystal â dyfalbarhau gyda syniadau a gweithgareddau pan maent yn werth eu canlyn.

Beth ydym yn ei ddysgu am sut mae pobl hŷn yn cyfrannu at gymunedau gwledig?

Mae pobl hŷn yn cyfrannu at gymunedau gwledig mewn sawl ffordd:

- Drwy wirfoddoli yn ffurfiol ac yn anffurfiol.
- Drwy adeiladu cysylltiadau ag eraill yn y gymuned a chymryd rhan yn gymdeithasol.
- Drwy gael llais ac ymgyrchu'n weithredol dros newid neu welliannau.
- Drwy ofalu am eraill. Gall hyn fod mewn sawl ffordd, am bartneriaid, teulu a ffrindiau ac ar draws sawl cenhedlaeth.
- Drwy rannu eu gwybodaeth a phrofiadau i helpu i wella gwasanaethau neu drosglwyddo eu sgiliau ac arbenigedd i eraill yn y gymuned.



Sut mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar strategaethau a rhaglenni cenedlaethol a'r DU?

Drwy Doethineb Gwledig, cafodd pobl hŷn eu gwahodd a'u hannog i gyfrannu at sesiynau ymgynghori ar strategaethau cenedlaethol y llywodraeth, er enghraifft, 'A Connected Scotland' a 'Cysylltu Cymunedau' (Cymru).

Mae'r gwersi a ddysgwyd, ac enghreifftiau o, Doethineb Gwledig hefyd wedi bwydo i mewn i Strategaeth yr Alban: 'A Fairer Scotland for Older People'. Yng Nghymru, mae'n cyfrannu at y gwaith ar y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a gynhelir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae hyn yn cynnwys Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed, cymunedau sy'n gefnogol o ddementia a gwaith yn seiliedig ar unigrwydd ac arwahanrwydd.


Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â sut mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar ystod o faterion polisi i gefnogi pobl hŷn i fyw mewn cymunedau gwledig yma:

www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation



Sut mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar dwf cymunedau sy'n gwerthfawrogi pobl hŷn

- Mae'r ddwy genedl wedi bod yn dysgu oddi wrth ei gilydd o ran datrysiadau i rai o'r problemau sy'n gyffredin: e.e. trafndiaeth (Yr Alban yn dysgu gan Gymru) a modelau cymunedol o iechyd a gofal cymdeithasol (Cymru yn dysgu gan yr Alban).
- Mae'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi rhannu enghreifftiau o weithgareddau Doethineb Gwledig i arddangos beth y gellir ei wneud a sut, i greu Cymunedau sy'n Ystyriol o Oed. Mae ceisio barn pobl hŷn yn rhan o'r datrysiad.
- Mae Doethineb Gwledig yn yr Alban wedi bod yn newid agweddau swyddogion cyhoeddus ynglŷn â phobl hŷn yn gyfranwyr, nid yn ddefnyddwyr gwasanaeth goddefol yn unig.



Gwersi allweddol am gynaliadwyedd o leoliadau Cam 1

Mae sawl ffactor wedi bod yn bwysig i gynaliadwyedd gweithgareddau a mentrau a sefydlwyd gan Doethineb Gwledig yn y lleoliadau Cam 1 yng Nghymru a'r Alban.

Seilwaith lleol cefnogol

Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a grwpiau angen sicrwydd bod cyfleusterau lleol (e.e. lleoliadau, sianeli gwybodaeth) a phartneriaid lleol cefnogol (cyngorau a'r trydydd sector) ar gael i'w cefnogi pe baent eu hangen yn y dyfodol.

Rheoli disgwyliadau

Lle na ellir talu am arweinydd neu gydlynnydd i gynnal grŵp neu weithgareddau yn y tymor hir, mae angen rhoi gwybod i bobl yn gynnar yn y broses a'u cefnogi i ystyried beth all hyn ei olygu i'r grŵp, gweithgaredd neu fenter.

Pobl yn cymryd rhan ym mhob ffordd

Mae cyfraniad pobl (o bob oed) boed nhw mewn rôl arweiniol neu gydlynol, yn cefnogi fel gwirfoddolwyr neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau, mae eu presenoldeb a chyfraniad yn hanfodol i hirhoedledd y gweithgaredd neu'r grŵp.

Diwallu angen nas diwellir

Mae'n bwysig bod y gweithgaredd neu'r fenter yn helpu i fynd i'r afael â bwlich yn y ddarpariaeth sydd ar gael.

Sicrhau bod y gymuned yn cael gwybodaeth ac yn ymgysylltu

Mae angen hyrwyddo a hysbysebu gweithgareddau, grwpiau neu fentrau yn rheolaidd ar draws y gymuned fel bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd a sut y gallant gymryd rhan.

Mynediad at gyllid

Yn ogystal â thalu costau, mae gwybod pa gyllid sydd ar gael a chael cymorth i wneud cais amdano, yn bwysig.

Gwneud gwahaniaeth

Mae'n bwysig bod beth bynnag sy'n digwydd, yn gwneud gwahaniaeth a bod pobl yn gallu gweld y gwerth a gyniga hyn. Mae adeiladu hyder a balchder o fod yn rhan o rywbeth hefyd yn bwysig i gynaliadwyedd grwpiau neu fentrau.

Buddsoddi amser

Mae pa mor gyflym y datblygir gweithgareddau neu fentrau yn dibynnu ar y bobl sy'n cymryd rhan, felly mae hi'n bwysig rhoi amser i bobl a sicrhau eu bod yn barod, yn abl ac yn hyderus i naill ai cymryd rhan, cefnogi neu arwain.

Enghreifftiau o gynaliadwyedd yn lleoliadau Cam 1

Dyma rai enghreifftiau o beth sy'n cael ei gynnal drwy waith Doethineb Gwledig yn lleoliadau Cam 1:



- Grŵp Canu (Brechin, Angus),
- Gwaith rhyng-genedlaethol yn Eaglesham, Edzell a Choed-llai,
- Caffi Cymunedol yng Nghoed-llai,
- Grŵp Cymdeithasol a Chlwb Cinio yn Aberdaugleddau,
- Clwb Cinio,
- 'Pwynt Siarad' i barhau yn Eaglesham drwy Gymorth Cymunedol East Renfrewshire.



- Support Choices - gwybodaeth a chyngor annibynnol am ofal cymunedol yn Ucheldir Swydd Perth,
- Gwnaeth Upper Tay Transport Group gais am gyllid gan Gronfa Trafnidiaeth Cymunedau'r Cyngor, i barhau gyda'r gweithgareddau. Buont yn llwyddiannus, gan sicrhau bod y grŵp yn gallu cyflogi Gweithiwr Datblygu,
- Mae 'What's On' yn Aberdaugleddau yn cael ei arwain gan Youth Matters sy'n chwilio am gyllid i barhau gyda'r cyhoeddiad sy'n darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned,
- Mae Outside the Box wedi cael cyllid gan y Rhaglen Cysylltu Cymunedau (cyllid LEADER yr UE). Mae hyn yn talu am Weithiwr Datblygu rhan-amser yn Eaglesham ac Angus i adeiladu ar y rhan cysylltu cymunedau o Doethineb Gwledig.

Astudiaethau Achos o beth sy'n gweithio

Ar ddechrau Doethineb Gwledig, daeth pob cymuned ynghyd i drafod y problemau allweddol i bobl hŷn sy'n byw yno a sut y gallai Doethineb Gwledig helpu. Gwnaeth y problemau hyn helpu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Gweithwyr Datblygu, eu hymgysylltiad â phobl hŷn a gwaith gyda sefydliadau.

Mae'r pum astudiaeth achos canlynol yn amlygu rhai o'r gweithgareddau gwahanol y mae Doethineb Gwledig wedi eu darparu a beth sydd wedi cael ei gyflawni a'i gynnal yn y cymunedau hyn gan bobl hŷn o ganlyniad.

Cynnal 'What's On' drwy Doethineb Gwledig: Aberdaugleddau. 01

Cododd pobl hŷn sy'n byw yng nghymuned Gymraeg Aberdaugleddau'r broblem nad ydynt yn aml yn gwybod beth sydd ar gael iddynt yn eu cymuned. Cynhyrchwyd y cyhoeddiad 'What's On' mewn ymateb i'r angen hwn ac mae wedi dod yn adnodd gwerthfawr i bobl hŷn yn Aberdaugleddau. Mae'r cyhoeddiad misol hwn yn darparu gwybodaeth am grwpiau a gweithgareddau cymunedol ac mae bellach yn cael ei gydlynu a'i gynhyrchu gan Youth Matters. Darllen mwy: www.ndti.org.uk/uploads/files/RW_Case_Study_1_Sustaining_Whats_on_Milford_Haven_Welsh_version_final_Jan_20.pdf

Gwella trafndiaeth leol drwy Doethineb Gwledig: Ardal Upper Tay. 02

Mae'r Upper Tay Transport Group wedi cael ei arwain gan bobl hŷn mewn ymateb i broblem gyffredin a ddaeth i'r amlwg ymhlith cymunedau lleol: diffyg trafndiaeth. Maent wedi gweithio gyda'r cwmni bysiau i wella a hysbysebu'r amserlen ac maent wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan y cyngor i ariannu gweithiwr rhan-amser i gefnogi'r grŵp am ddwy flynedd arall. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei rannu â rhannau eraill o'r Alban. Darllen mwy: www.ndti.org.uk/uploads/files/RW_Case_Study_2_Upper_Tay_Transport_Group_Welsh_version_final_Jan_20.pdf

Astudiaethau Achos o beth sy'n gweithio (parhad)

Gweithgarwch rhyng-genedlaethol drwy Doethineb Gwledig - 03 Montgomerie Court ac Ysgol Gynradd Eaglesham

Roedd pobl hŷn eisiau gweithgareddau ar gyfer bob oed. Yn Eaglesham, gwnaeth Gweithiwr Datblygu, ar ôl clywed preswylwyr tai gwarchod lleol yn siarad am fynd allan a chysylltu ag ysgol leol, greu cyfleoedd i breswylwyr fynd i mewn i'r ysgol a gwneud gweithgareddau gyda'r plant. Mae hyn wedi adeiladu cysylltiadau gwerthfawr ac arwain at gyfnewid sgiliau a doniau ymhlith pobl hŷn a phlant. Maent bellach yn trefnu'r gweithgareddau ar y cyd eu hunain. Darllen mwy: www.ndti.org.uk/uploads/files/RW_Case_Study_3_Intergenerational_activity_Welsh_version_final_Jan_20.pdf

Dod â'r gymuned ynghyd drwy Doethineb Gwledig - 04 Caffi Cymunedol Coed-llai

Mae Caffi Cymunedol Coed-llai yn agor bob bore lau. Ar ôl cyfnod fel ystafell ddibwrpas mewn canolfan gymunedol, trawsnewidiodd gwirfoddolwyr o'r gymuned, dan gyd-drefniant Gweithiwr Datblygu, yr ystafell yn gaffi bywiog, lle mae pobl hŷn yn ymgynnull i gwrdd â ffrindiau a gall rhieni ifanc alw heibio am seibiant canol bore. Sefydlwyd y caffi mewn ymateb i nifer o broblemau yn gysylltiedig â diffyg cyfleoedd i ddyfynion, y dyhead am ysbryd cymunedol a rhywbeth a oedd ar gael i bobl ifanc. Mae'r caffi bellach yn cael ei arwain a'i gefnogi gan wirfoddolwyr yn y gymuned fel rhan o raglen Cymuned sy'n Ystyriol o Oed y cyngor. Darllen mwy: www.ndti.org.uk/uploads/files/RW_Case_Study_4_Leeswood_Cafe_Welsh_version_final_Jan_20.pdf

Gweithgareddau cymunedol drwy Doethineb Gwledig - 05 Grŵp Canu yn Brechin

Dywedodd pobl hŷn wrthym eu bod eisiau mwy o weithgareddau cymunedol i bobl sy'n byw yn Brechin a'r cyffiniau, felly, dechreuodd y Gweithiwr Datblygu grŵp canu, sydd wedi bod yn cael ei gynnal bob pythefnos ers mis Ebrill 2018. Mae aelodau'r grŵp yn pwysleisio sut mae wedi eu helpu i wneud cysylltiadau a dysgu am weithgareddau eraill. Maent bellach yn gyfrifol am redeg y grŵp eu hunain. Darllen mwy: www.ndti.org.uk/uploads/files/RW_Case_Study_5_Singing_Group%2C_welsh_version_final_Jan_20.pdf

Cwestiynau ar gyfer y gwerthusiad

Mae'r gwersi o'r gwerthusiad hyd yn hyd wedi arwain at sawl cwestiwn pwysig isod. Bydd y tîm gwerthuso yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid ar draws y cymunedau gwreiddiol a newydd i ystyried y rhain dros y flwyddyn nesaf.

01 Lle mae Gweithwyr Datblygu wedi buddsoddi amser ac egni yn canlyn cyfle gyda chanlyniadau cadarnhaol, beth allwn ni ei ddysgu am nodweddion y cyfleoedd hyn sydd werth eu canlyn mewn cymuned benodol?

Beth allwn ni ei ddysgu am gynaliadwyedd? A sut allwn ni ddefnyddio hyn i lywio lleoliadau sy'n fwy newydd? **03**

Sut ydym yn dylanwadu ar bolisi yn gyntaf ac yna'n gweithio gyda'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n ymarferol i bobl o bob oed mewn cymunedau gwledig? **05**

Sut ydym yn rhannu dysgu i wireddu newid gyda phobl hŷn mewn cymunedau gwledig? Sut ydym yn adnabod effaith hyn mewn lleoedd eraill? **02**

04 Beth ydym yn ei ddysgu o'r lleoliadau newydd ac a oes yna rywbeth gwahanol yn digwydd, pam?

Adnoddau

Gellir dod o hyd i ganllaw defnyddiol 'Cyngor ar gyfer cael pobl i gymryd rhan' yma: ruralwisdom.org/wp-content/uploads/2018/09/Tipsforgettingpeopleinvolvedfinal.pdf

Mae gwefan Doethineb Gwledig yn darparu blogiau rheolaidd gan y cymunedau a chyhoeddiadau, yn cynnwys, 'Cyngor ar Gymunedau Aml-genedlaethol' a 'Cael Llais a Chael eich Clywed' sydd i ddod yn fuan.

www.ruralwisdom.org

Pwynt Cyswllt Gwerthuso

Carol Clifford
Arweinydd y Rhaglen (Heneiddio â Phobl Hŷn)
E-bost: Carol.Clifford@ndti.org.uk
Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)
Llawr Cyntaf, 30-32 Westgate Buildings
Caerfaddon
BA1 1EF

www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation